# Enwau a ddefnyddir yn gyffredin

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon

Ymgeiswyr ac asiantiaid a hoffai ragor o wybodaeth ar y defnydd enwau a ddefnyddir yn gyffredin ar bapurau enwebu. Yn y ddogfen hon, defnyddiwn 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd.

## Mae'r ddogfen yn trafod

- Enwau a ddefnyddir yn gyffredin a sut i gwblhau ffurflen enwebu os hoffech ddefnyddio un

2

# Enwau a ddefnyddir yn gyffredin

Os adnabyddir chi fel rheol wrth enw(au) arall heblaw am eich enw cyntaf neu gyfenw gwirioneddol, gellwch ofyn am i'ch enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin gael eu hargraffu ar y papur pleidleisio (a detholiad o ddogfennau etholiad swyddogol eraill). Gellir gwneud y cais hwn ar y ffurflen enwebu.

Fodd bynnag, os hoffech ddefnyddio eich enw llawn yn unig, yna dylech adael y blychau enwau a ddefnyddir yn gyffredin yn wag.

Ni chaniateir enwau a ddefnyddir yn gyffredin y mae'r Swyddog Canlyniadau yn ystyried sy'n rhai a allai gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu sy'n anllad neu'n dramgwyddus.
Os nad yw'r enw(au) yn cael ei ganiatáu, bydd y Swyddog Canlyniadau yn ysgrifennu atoch gan nodi'r rheswm dros wrthod.

Mewn achosion o'r fath, defnyddir eich enwau llawn yn unig.

# Cwblhau'r ffurflen enwebu

Gellwch ofyn am enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin, neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin, neu'r ddau.

Er enghraifft, efallai eich bod yn cael eich adnabod gan ffurf fer eich enw 'Andy', yn hytrach na'ch enw cyntaf llawn 'Andrew'.

Yn yr achos hwnnw, gellwch ysgrifennu 'Andy' yn y blwch enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin.

Os yw naill ai'r blwch enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin yn cael ei adael yn wag, yna bydd eich enw cyntaf gwirioneddol neu eich cyfenw gwirioneddol, gan ddibynnu ar ba flwch enw a ddefnyddir yn gyffredin sydd wedi ei adael yn wag, yn mynd ar y papur pleidleisio.

## Teitlau, rhagddodiaid/ôl-ddodiaid

Ni ddylid defnyddio teitlau a rhagddodiaid, fel Mr Mrs neu Dr, yn y rhan o'r papur enwebu ar gyfer eich enw gwirioneddol.

Mae'r un peth yn wir am ôl-ddodiaid.

Fodd bynnag, os yr ydych yn cael eich adnabod yn gyffredin gan enw sy'n cynnwys rhagddodiad, fel Dr Vanessa Smith, yna cewch gynnwys rhagddodiad yn y blwch enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin.

Neu os ydych, er enghraifft, yn cael eich adnabod fel Vanessa Smith PhD, yna gellir rhoi'r ôl-ddodiad 'PhD' yn y blwch cyfenw a ddefnyddir yn gyffredin.

Gall person a adnabyddir gan eu teitl ddefnyddio hwnnw yn lle eu cyfenw.

Er enghraifft, os mai enw gwirioneddol ymgeisydd yw Joseph Smith, a'i deitl etifeddol yw Is-Iarll Avon, caiff ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel petai'n enw gwirioneddol iddo.

Gall yr ymgeisydd ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel ei enw gwirioneddol heb gwblhau'r blychau enw a ddefnyddir yn gyffredin.

4

# Sut gallwn ni helpu

Gellwch weld ein hamrediad cyfan o ganllawiau ac adnoddau cyfredol ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gellwch hefyd ein ffonio ar y rhifau isod neu'n e-bostio.

Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
- Cymru: 029 2034 6800
- Yr Alban: 0131 255 0200

Anfonwch neges e-bost at:

info@electoralcommission.org.uk

infowales@electoralcommission.org.uk

infoscotland@electoralcommission.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk